



Disclosure &  
Barring Service

# Polisi Cydymffurfio Corff Cofrestredig Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Dyddiad: Mai 2018  
Fersiwn: 1

# Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	3
2.	Cwmpas .....	3
3.	Sut y mae DBS yn monitro cydymffurfiad .....	3
3.1	Holiadur hunanasesu .....	4
3.2	Holiadur cydymffurfio llawn .....	4
3.3	Archwiliad cydymffurfio .....	4
4.	Asesiad cydymffurfio .....	5
4.1	Asesiad cydymffurfio – holiadur cydymffurfio llawn.....	5
	<b>Asesiad maes cydymffurfio allweddol unigol.....</b>	<b>5</b>
	<b>Asesiad cydymffurfiad cyffredinol Corff Cofrestredig.....</b>	<b>5</b>
	• Ymddengys nad yw'n cydymffurfio.....	5
	• Ymddengys ei fod yn cydymffurfio'n rhannol.....	5
	• Ymddengys ei fod yn cydymffurfio .....	5
4.2	Asesu cydymffurfiad yn dilyn archwilio cydymffurfiad .....	6
	<b>Asesiad maes cydymffurfio allweddol unigol.....</b>	<b>6</b>
	<b>Asesiad cydymffurfiad cyffredinol Corff Cofrestredig.....</b>	<b>6</b>
	• Diffyg cydymffurfio.....	6
	• Cydymffurfio'n rhannol .....	6
	• Cydymffurfio .....	6
4.3	Gofynion ac Argymhellion .....	6
	• Gofynion yn y maes Gwirio Hunaniaeth a Phroses Ymgeisio .....	6
	• Gofynion ym mhob maes cydymffurfio allweddol arall .....	6
	• Argymhellion .....	6
5.	Cefnogaeth ar ôl asesiad cydymffurfio .....	6
6.	Gwahardd/canslo Cofrestriad Corff Cofrestredig .....	7
7.	Adolygiadau a Sylwadau .....	7
7.1	Adolygu asesiad cydymffurfio DBS .....	7
7.2	Adolygu gwahardd/canslo cofrestriad Corff Cofrestredig .....	8
8.	Pwyntiau cyswllt.....	8

# 1. Cyflwyniad

Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ym mis Rhagfyr 2012 o dan Ran V y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (POFA) i ymgymryd â swyddogaethau datgelu a gwahardd. DBS sy'n gyfrifol am sicrhau bod Cyrff Cofrestredig (RBs) yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer DBS](#) ar gyfer Personau Cofrestredig (COP), a gyhoeddir o dan adran 122 [Deddf yr Heddlu 1997](#) a'r [Amodau sydd ynghlwm wrth Gofrestru](#) (COR) fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deddf Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Cofrestru) 2006). Yn ychwanegol, rhaid i Gyrff Cofrestredig sy'n cyflwyno gwiriadau yn electronig i'r DBS trwy system eLwyth gydymffurfio â'r [Cytundeb Cyfnewidfa eLwyth](#) a sicrhau bod systemau eLwyth yn cael eu hadeiladu yn unol â'r [Manyleb Neges Busnes eLwyth \(BMS\)](#).

Diben y rhaglen gydymffurfio Cyrff Cofrestredig yw sicrhau bod y rhwydwaith Cyrff Cofrestredig yn cyflenwi ar ei gyfrifoldebau gan y gallai methiant i gyflawni hyn gyfaddawdu cyfanrwydd y gwasanaeth. Mae'r rhaglen gydymffurfio hefyd yn cynnig sicrwydd i DBS, Y Swyddfa Gartref a rhanddeiliaid eraill o safon y rhwydwaith Cyrff Cofrestredig.

Os nad yw gofynion yn cael eu bodloni, bydd y rhaglen gydymffurfio yn adnabod hyn ac yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd a gwelliannau yn cael eu gwneud.

Amlinella Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Cofrestru) yr Amodau Cofrestru 2006. Mae Rheoliad 7(h) yn gofyn am gydymffurfiad gyda'r Cod Ymarfer a gyhoeddir o dan adran 122 Deddf yr Heddlu. Gallai methiant i gydymffurfio â'r Amodau Cofrestru arwain at wahardd neu ganslo'r cofrestriad.

Diben y polisi hwn yw amlinellu gweithdrefnau cydymffurfio cyfredol y DBS.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl sefydliadau cofrestredig sydd wedi cofrestru gyda'r DBS o dan adran 120 Deddf yr Heddlu 1997. Mae hyn yn cynnwys y cyrff cofrestredig sy'n cynnig swyddogaeth ymbarél i sefydliadau heb gofrestru.

## 3. Sut y mae DBS yn monitro cydymffurfiad

Mae DBS wedi cynhyrchu dogfen safonau cydymffurfio. Mae'n amlinellu'r gofynion y mae'n rhaid i'r Cyrff Cofrestredig eu bodloni. Mae'r ddogfen safonau cydymffurfio yn cysylltu pob gofyniad ag adran berthnasol o'r COR, COP, Cytundeb Cyfnewidfa a BMS. Mae'r ddogfen safonau cydymffurfio yn cynnwys y cwestiynau y bydd y DBS yn eu gofyn fel rhan o'r rhaglen gydymffurfio serch hynny nid yw'r DBS wedi'u cyfyngu i'r cwestiynau hyn.

Mae DBS hefyd yn defnyddio tystiolaeth fewnol i adnabod materion cydymffurfio. Mae'n cynnwys data ymgeisio, croestynnu rhwng heddluoedd, anghydfodau a chwynion cwsmeriaid.

Mae tri chyfnod allweddol i broses gydymffurfio'r DBS:

### 3.1 Holiadur hunanasesu

Mae'n holiadur byr sy'n cael ei lenwi gan Gyrrff Cofrestredig i gynnig arwydd cychwynnol o'u lefel gydymffurfio.

Mae hyn yn helpu'r Gyrrff Cofrestredig i asesu eu hunain yn erbyn y gofynion cydymffurfio yn barod ar gyfer yr holiadur cydymffurfio llawn. Fe'i defnyddir hefyd i adnabod Gyrrff Cofrestredig sydd â materion cydymffurfio risg uchel a allai effeithio ar ddiogelu, ar gyfer holiadur cydymffurfio llawn.

Mae gan Gyrrff Cofrestredig 10 diwrnod gwaith i'w ddychwelyd.

### 3.2 Holiadur cydymffurfio llawn

Mae hwn yn holiadur manylach sy'n cael ei lenwi gan Gyrrff Cofrestredig sy'n diffinio eu gweithdrefnau a'r prosesau yn erbyn yr 8 maes cydymffurfio allweddol:

1. Manylion cofrestru
2. Cymhwysedd
3. Gwirio hunaniaeth
4. Proses ymgeisio
5. Polisiâu
6. System eLwyth (lle fo'n berthnasol)
7. Talu ffioedd
8. Cyfeintiau

Mae gan Gyrrff Cofrestru 10 diwrnod gwaith i ddychwelyd yr holiadur hwn.

Bydd rheolwr cydymffurfio'r DBS yn adolygu'r holiadur cydymffurfio llawn a bydd yn asesu pob adran gydymffurfio fel naill ai "ymddengys ei fod yn cydymffurfio" neu "ymddengys nad yw'n cydymffurfio". Bydd penderfyniad o ymddengys nad yw'n cydymffurfio yn cael ei wneud mewn unrhyw faes os oes unrhyw un o'r cwestiynau yn ennyn ymateb anfoddhaol ar sail gofynion y ddogfen safonau cydymffurfio. Yna bydd yr asesiad hwn yn cael ei gyfeirio at uwch reolwr cydymffurfio i gadarnhau'r asesiad a gynhaliwyd.

Yna bydd yr uwch reolwr cydymffurfio yn penderfynu a oes angen archwiliad ar sail yr ystyriaethau a ganlyn:

- materion risg uwch wedi'u hadnabod sy'n effeithio ar ddiogelu
- cyfeintiau'r ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno
- sampl ar hap o Gyrrff Cofrestredig sy'n weddill

Os nad oes angen archwilio cydymffurfiad bydd adroddiad adborth yn cael ei ddarparu i'r Corff Cofrestredig. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ofynion y mae'r Corff Cofrestredig yn rhwym i'w cynnal. Os yw'r Corff Cofrestredig yn methu gwneud hyn o fewn y graddfeydd amser a roddir, gellid ei gyfeirio ar gyfer archwiliad cydymffurfio.

### 3.3 Archwiliad cydymffurfio

Os bydd Corff Cofrestredig yn cael ei ddewis ar gyfer archwiliad cydymffurfio, fe'i cynhelir ar safle'r Corff Cofrestredig ac mae'n cynnwys:

- cyfarfod rhagarweiniol gyda'r llofnodwr arweiniol

- adolygiad o'r holiadur cydymffurfio llawn
- esboniad o brosesau'r Corff Cofrestredig a'r system eLwyth (lle fo'n berthnasol)
- adborth ar ganfyddiadau

Rhaid cynnal yr archwilio o fewn 28 diwrnod i'r hysbysiad ffurfiol yn cael ei roi o'r archwiliad.

Yn dilyn yr archwiliad, bydd adroddiad archwilio cydymffurfiad yn cael ei gyhoeddi i'r Corff Cofrestredig. Bydd pob maes cydymffurfio yn cael ei asesu yn unigol, a bydd asesiad cydymffurfio Corff Cofrestredig cyffredinol yn cael ei roi.

Rhaid i Gorff Cofrestredig gydymffurfio'n llawn ac yn unol â'r graddfeydd amser a roddir ar gyfer yr holiadur cydymffurfio llawn a'r archwiliad cydymffurfio. Gallai methiant i wneud hynny arwain at wahardd neu ganslo'r Corff Cofrestredig.

## 4. Asesiad cydymffurfio

### 4.1 Asesiad cydymffurfio – holiadur cydymffurfio llawn

#### **Asesiad maes cydymffurfio allweddol unigol**

Bydd pob un o'r 8 maes cydymffurfio allweddol yn cael eu hasesu fel naill ai:

- **Ymddengys ei fod yn cydymffurfio**
- **Ymddengys nad yw'n cydymffurfio**

#### **Asesiad cydymffurfiad cyffredinol Corff Cofrestredig**

Rhoddir asesiad cydymffurfiad cyffredinol Corff Cofrestredig. Y canlyniadau posibl yw:

- **Ymddengys nad yw'n cydymffurfio**  
Os oes diffyg cydymffurfiad yn cael ei adnabod yn y meysydd Gwirio Hunaniaeth a/neu'r Broses Ymgeisio, bydd yr asesiad cyffredinol yn "ymddengys nad yw'n cydymffurfio". Y rheswm dros hyn yw bod y meysydd hyn yn cyflwyno risg o wybodaeth anghywir neu anghyflawn yn cael ei darparu i'r DBS a gwybodaeth ddim yn cael ei datgelu ar dystysgrif DBS. Gallai hyn arwain at risg ddiogelu.
- **Ymddengys ei fod yn cydymffurfio'n rhannol**  
Os yw diffyg cydymffurfiad yn cael ei adnabod mewn un neu'n fwy o'r meysydd cydymffurfio allweddol eraill, yr asesiad cyffredinol fydd "ymddengys ei fod yn cydymffurfio'n rhannol". Mae hyn oherwydd bod gofynion wedi'u hadnabod ar gyfer y Corff Cofrestredig; serch hynny, nid oes risg diogelu wedi'i hadnabod.
- **Ymddengys ei fod yn cydymffurfio**  
Os yw pob maes yn cael ei asesu yn cydymffurfio, yr asesiad cyffredinol fydd "ymddengys ei fod yn cydymffurfio". Nid oes gofynion wedi'u hadnabod ar gyfer y Corff Cofrestredig ac nid yw'r DBS wedi adnabod unrhyw risgiau diogelu; serch hynny, efallai y bydd argymhellion y gallai'r Corff Cofrestredig ddewis eu gweithredu.

Seilir asesiad ar "ymddengys ei fod" yn cydymffurfio neu nad yw'n cydymffurfio, ar gyfer meysydd unigol a seilir asesiad cyffredinol ar werthusiad, o ymatebion i'r holiadur cydymffurfio.

Defnyddir y term hwn "ymddengys ei fod" gan fod yr asesiad wedi'i seilio ar yr holiadur yn unig. Nid oes archwiliad wedi'i gynnal ar y safle o'r systemau, y polisïau a'r gweithdrefnau. O ganlyniad i hynny, nid yw'n bosibl datgan yn bendant bod y Corff Cofrestredig yn "cydymffurfio" neu "nad yw'n cydymffurfio".

## 4.2 Asesu cydymffurfiad yn dilyn archwilio cydymffurfiad

### Asesiad maes cydymffurfio allweddol unigol

Bydd pob un o'r 8 maes cydymffurfio allweddol yn cael eu hasesu fel naill ai:

- **Cydymffurfio**
- **Diffyg cydymffurfio**

### Asesiad cydymffurfiad cyffredinol Corff Cofrestredig

Rhoddir asesiad cydymffurfiad cyffredinol. Y canlyniadau posibl yw:

- **Diffyg cydymffurfio**  
Os oes diffyg cydymffurfiad yn cael ei adnabod yn y meysydd Gwirio Hunaniaeth a/neu'r Broses Ymgeisio, bydd yr asesiad cyffredinol yn "diffyg cydymffurfiad". Oherwydd mae'r meysydd hyn yn cyflwyno risg o wybodaeth anghywir ac anghyflawn yn cael ei darparu i'r DBS a gwybodaeth nad yw'n cael ei datgelu ar dystysgrif DBS. Gallai hyn arwain at risg ddiogelu.
- **Cydymffurfio'n rhannol**  
Os yw diffyg cydymffurfiad yn cael ei adnabod yn un neu'n fwy o'r meysydd cydymffurfio allweddol eraill, yna yr asesiad cyffredinol fydd "cydymffurfio'n rhannol". Y rheswm dros hyn yw bod gofynion wedi'u hadnabod ar gyfer y Corff Cofrestredig; serch hynny, nid oes risg ddiogelu wedi'i hadnabod.
- **Cydymffurfio**  
Os yw'r holl feysydd yn cael eu hasesu yn cydymffurfio, yr asesiad cyffredinol fydd "cydymffurfio". Nid oes gofynion yn cael eu hadnabod ar gyfer y Corff Cofrestredig ac nid ydym wedi adnabod unrhyw risgiau diogelu; serch hynny, mae argymhellion y gallai'r Corff Cofrestredig ddewis eu gweithredu.

Mae'r asesiad cydymffurfio neu ddiffyg cydymffurfio, ar gyfer meysydd unigol ac asesiad cyffredinol, wedi'i seilio ar werthuso'r ymatebion i'r holiadur cydymffurfio a'r wybodaeth/tystiolaeth a gasglwyd o'r archwiliad.

## 4.3 Gofynion ac Argymhellion

Fel rhan o asesu'r 8 maes allweddol, mae'n bosibl y bydd gofyn i Gorff Cofrestredig ymgymryd â rhai camau. Mae'n bosibl y bydd DBS yn gwneud "argymhellion" hefyd. Bydd casgliadau DBS yn disgyn i'r categorïau a ganlyn:

- **Gofynion yn y maes Gwirio Hunaniaeth a Phroses Ymgeisio**  
Mae'r gofynion a gofnodwyd yn erbyn y meysydd hyn yn ofynion blaenoriaeth uchel a rhaid eu sefydlu o fewn **4 wythnos** o'r adroddiad adborth neu'r adroddiad archwilio yn cael eu cyhoeddi. Serch hynny, mae DBS yn cadw'r hawl i ofyn am gamau di-oed os pennir bod y risg a adnabuwyd yn gwarantu hyn.
- **Gofynion ym mhob maes cydymffurfio allweddol arall**  
Mae'r gofynion a gofnodir yn erbyn y meysydd hyn yn ofynion blaenoriaeth is a rhaid eu sefydlu o fewn **8 wythnos** i gyhoeddi'r adroddiad adborth neu adroddiad archwilio.
- **Argymhellion**  
Gallai'r DBS ddarparu argymhellion i wella prosesau neu systemau Corff Cofrestredig, ar sail arfer gorau. Nid oes amserlenni ynghlwm â'r rhain ac nid oes rheidwydd ar y Corff Cofrestredig i'w cyflwyno.

Bydd DBS yn gofyn bod gofynion yn cael eu gweithredu ar gyfer unrhyw faes allweddol sy'n cael ei asesu heb fod yn cydymffurfio.

# 5. Cefnogaeth ar ôl asesiad cydymffurfio

Mae'r Tîm Rheoli Perthynas ar gael i gefnogi Cyrff Cofrestredig sydd angen gweithredu'r gofynion a adnabuwyd gan y broses gydymffurfio, o fewn yr amserlenni a roddwyd.

## 6. Gwahardd/canslo Cofrestriad Corff Cofrestredig

Os nad yw Corff Cofrestredig nad yw'n cydymffurfio yn dangos ei fod yn sefydlu mesurau i fodloni ei rwymedigaethau, mae'n bosibl y gwaherddir ei gofrestrriad hyd nes y bydd y rhain yn cael eu sefydlu.

Mae'n rhaid bod Corff Cofrestredig wedi cynnal archwiliad cydymffurfio cyn y gellir ystyried gwaharddiad.

Bydd y penderfyniad i wahardd yn ystyried:

- Effaith risg y diffyg cydymffurfriad
- Yr ymdrech a wneir gan y Corff Cofrestredig i gydymffurfio
- Tebygolrwydd y Corff Cofrestredig yn cyrraedd cydymffurfriad o fewn amserlen sy'n briodol i'r lefel risg.

Bydd cofrestriad Corff Cofrestredig yn cael ei ganslo os na ellir bodloni'r gofynion neu os, ar ôl diwedd cyfnod o 6 mis i ddyddiad y gwaharddiad, nad yw Corff Cofrestredig wedi cyrraedd sefyllfa o gydymffurfriad.

Rhaid i DBS gydymffurfio â'r isod:

- Rhaid i DBS anfon hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wahardd neu ganslo cofrestriad Corff Cofrestredig.
- Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig roi rhesymau dros ei fwriad i wahardd/canslo a rhaid hysbysu Corff Cofrestredig y gall gyflwyno sylwadau o fewn 21 diwrnod i'r llythyr gael ei roi iddo.
- Os na dderbynnir sylwadau, gellir gwahardd neu ganslo cofrestriad Corff Cofrestredig ar ôl 21 diwrnod i ddyddiad y llythyr a roddir iddo.
- Os, ar ôl gwneud sylwadau, y bydd penderfyniad yn cael ei wneud i wahardd neu ganslo cofrestriad Corff Cofrestredig, ni fydd unrhyw waharddiad neu ganslad yn dod i rym hyd at 6 wythnos ar ôl cyflwyno llythyr yn eu hysbysu o'r penderfyniad.

Sylwer, gallai Cyrff Cofrestredig gael eu gwahardd neu'u canslo hefyd pan fydd materion yn cael eu hadnabod y tu hwnt i'r broses gydymffurfio, fel y disgrifir yn y Polisi hwn. Ymhlith y rhesymau hyn y mae:

- Peidio â thalu ffioedd
- Methu bodloni trothwyon cyfaint
- Twyll

## 7. Adolygiadau a Sylwadau

### 7.1 Adolygu asesiad cydymffurfio DBS

Mae gan Gorff Cofrestredig yr hawl i ofyn am adolygiad o'r asesiad cydymffurfiad a wneir gan DBS.

Os yw Corff Cofrestredig yn dymuno gofyn am adolygiad dylai anfon e-bost at [rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk](mailto:rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk) a nodi'r rhesymau pam ei fod yn teimlo y dylid adolygu'r asesiad.

Rhaid gwneud cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod i dderbyn y ffurflen adborth neu'r adroddiad archwilio yn cael ei gyhoeddi.

## 7.2 Adolygu gwahardd/canslo cofrestriad Corff Cofrestredig

Mae gan Gorff Cofrestredig yr hawl hefyd i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad i wahardd neu ganslo'i gofrestriad.

Os yw Corff Cofrestredig yn dymuno gofyn am adolygiad dylai anfon e-bost at [rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk](mailto:rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk) a gofyn am ffurflen adolygu. Rhaid ei gyflwyno o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad ysgrifenedig o waharddiad neu ganslad.

Unwaith y mae cofrestriad Corff Cofrestredig gyda DBS wedi'i ganslo ni ellir ei adfer. Byddai angen cyflwyno cais cofrestru newydd a'i ystyried yn unol â phroses gofrestru DBS.

Efallai y bydd Corff Cofrestredig yn dymuno ceisio ei gyngor cyfreithiol annibynnol ei hun o ran hyn.

# 8. Pwyntiau cyswllt

Am wybodaeth bellach am y broses gydymffurfio anfonwch e-bost at [rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk](mailto:rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk) neu cysylltwch â'n canolfan alw ar 0300 0200 190.